**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 11 Rhagfyr 2020**

| **Yn bresennol:** | | **Yn mynychu:** |
|---|---|---|
| Shan Morgan | | Sharon Cross |
| Meena Upadhyaya | | Clare Collett |
| Ellen Donovan | | Iona Lewis- Hannagan |
| Gareth Lynn | | **Ysgrifenyddiaeth:** |
| Jeff Farrar | | Charmain Watts |
| Andrew Goodall | | |
| Andrew Slade | | |
| Tracey Burke | | |
| Des Clifford | | |
| Reg Kilpatrick | | |
| Peter Kennedy | | |
| Andrew Jeffreys | | |
| Natalie Pearson | | |
| Gawain Evans | | |
| David Richards | | |
| Helen Lentle | | |
| Fran Hill | | |
| Robin Bradfield | | |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Dim | | |

## 1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i Fwrdd Llywodraeth Cymru a croesawu Reg Kilpatrick sydd wedi'i penodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng COVID-19.

2.1 Cytunodd Bwrdd Llywodraeth Cymru fod llawer yn mynd ymlaen yn y sefydliad, gyda cydbwyso meysydd blaenoriaeth allweddol, gan gynnwys Covid-19, Brexit a darparu'r Rhaglen Lywodraethu. Roedd y Cyfarwyddwyr Gweithredol (NED) yn gwerthfawrodi hyn ac yn cynnig eu cymorth i'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Bwrdd. Croesawodd y Bwrdd yr wybodaeth hon.

1.2 Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

## 2. Materion Presennol/diweddariad am Covid-19

2.2 Rhoddodd Andrew Goodall ddiweddariad i'r Bwrdd ar y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â Covid-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:

- Brechu,
- Trosglwyddiad y feirws yng Nghymru,
- Profi, Olrhain a Diogelu,
- Gweithgareddau gofal critigol,
- profi,
- Pwysau Covid ar ysbytai.

2.1 Rhoes Reg Kilpatrick y newyddion diweddaraf am y rheoliadau a dweud y byddai'r Prif Weinidog yn cyhoeddi system pedair haen y diwrnod hwnnw, ynghyd â chynllun Covid-19 wedi'i ddiweddaru a gyhoeddir ddydd Llun nesaf.

2.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gyfathrebu a chyfleu negeseuon, a gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd y negeseuon yn cael eu profi i sicrhau eu bod yn briodol i'r gynulleidfa. Esboniodd Andrew Goodall fod yr holl negeseuon yn cael eu profi o fewn grwpiau cyhoeddus.

## 3. Diweddariad ar Gyllid

3.1 Rhoes Gawain Evans y newyddion diweddaraf am fis 7 o reolaeth yn ystod y flwyddyn a ganolbwyntiodd ar:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn

3.2 Dywedodd Andrew Jeffreys fod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddyrannu gweddill y cyllid Covid-19. Rhoes Andrew y newyddion diweddaraf am benawdau Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant ac ymateb Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd. Esboniodd hefyd fod ei dîm yn gweithio ar hyn o bryd ar Gyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddir ar 21 Rhagfyr.

**4. Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol**

4.1 Cyflwynodd Clare Collett y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a dywedodd ei bod wedi cael ei llywio gan drafodaethau yn y Pwyllgor Cyllid. Dywedodd ei bod wedi cael ei diweddaru'n benodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran risg oherwydd Covid-19. Cafodd y Gofrestr Risgiau ei chylchredeg hefyd i'r Pwyllgor Gweithredol hefyd ar 8 Rhagfyr.

4.2 Tanlinellodd Clare y risgiau allweddol ac unrhyw newidiadau yn y gofrestr ers iddi ddod i Fwrdd Llywodraeth Cymru ddiwethaf ym mis Mehefin. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar lesiant staff, ac esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod ymgyrch ardderchog wedi cael ei lansio yn Llywodraeth Cymru sef ‘Cysylltu Pawb’. Fel rhan o'r ymgyrch byddem yn rhoi syniadau i staff am sut i ofalu amdanynt eu hunain a gofalu am ei gilydd y gaeaf hwn, gan gynnwys rhai o'r ffyrdd anffurfiol o chwarae rhan a chysylltu â chydweithwyr dros yr ŵyl.

**5. Adolygiad o'r Bwrdd – Canlyniadau'r Holiadur Hunanasesu**

5.1 Esboniodd Sharon Cross mai diben yr adolygiad o'r Bwrdd yw sicrhau ei fod yn parhau i weithredu yn effeithlon ac yn effeithiol. Daeth adborth i law oddi wrth Aelodau Gweithredol y Bwrdd, Aelodau Anweithredol, y Bwrdd Cysgodol ac Ochr yr Undebau Llafur.

5.2 Crynhôdd Sharon y canfyddiadau ac esboniodd fod aelodau'r bwrdd, at ei gilydd, yn gadarnhaol yn eu hadborth am Fwrdd Llywodraeth Cymru. Roedd cryfderau arbennig a danlinellwyd gan yr aelodau'n ymwneud ag awyrgylch cynhwysol ac effeithiol y Bwrdd a'i ymagwedd effeithiol at graffu a herio.

5.3 Roedd yr holl aelodau'n teimlo bod cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru'n gynhwysol ac yn fforwm agored ar gyfer trafodaeth a dadl lle'r oeddent yn

cael eu hannog a'u grymuso i gyfrannu. Dywedodd yr aelodau fod y swyddogaeth herio a oedd yn cael ei darparu gan Fwrdd Llywodraeth Cymru'n gryfder arbennig. Y farn oedd bod lefel y craffu a herio yr oedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ei darparu'n werthfawr iawn oherwydd y safbwynt allanol y maent yn ei gyfrannu. Roedd y gwaith yr oedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ei wneud y tu allan i gyfarfodydd Bwrdd hefyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

5.4 Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar agwedd amrywiaeth Bwrdd Llywodraeth Cymru, ac Esboniodd Andrew Jeffreys, fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd, ei fod yn edrych ar ffyrdd o wella amrywiaeth mewn fforymau gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

**Cam Gweithredu 1:** Teimlai'r Ysgrifennydd Parhaol y dylai Bwrdd Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r un fframwaith ag a ddefnyddir ar gyfer Byrddau a Phwyllgorau Cyrff Cyhoeddus, wrth benodi aelodau bwrdd.

5.5 Roedd adborth cymysg am fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu ac roedd rhai aelodau'n teimlo bod Covid-19 wedi'i gwneud yn anos cael mynediad at gyfleoedd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'r cynnig hyfforddiant sydd ar gael i staff Llywodraeth Cymru yn cael ei rannu â holl aelodau'r Bwrdd. Awgrymodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yr hoffent gyfarfod â'u cymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban i rannu dysgu. Byddent hefyd yn croesawu sesiwn ar ganlyniad yr Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd.

**Cam gweithredu 2:** Rhoi manylion cyswllt am eu cymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban er mwyn iddynt gytuno i gyfarfod er mwyn rhannu syniadau a gwersi.

**Cam gweithredu 3:** Edrych i mewn i drefnu sesiwn â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol i drafod canlyniadau ac awgrymiadau Holiadur Hunanasesu'r Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd.

**Camau sy’n codi yng nghyfarfod y Bwrdd**

| CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| Wrth benodi aelodau bwrdd dylai Bwrdd Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r un fframwaith ag a ddefnyddir gan Gyrff Cyhoeddus. | Peter Kennedy/ Yr Ysgrifenyddiaeth | Ar agor |

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi manylion cyswllt am eu cymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban er mwyn iddynt gytuno i gyfarfod er mwyn rhannu syniadau a gwersi. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Ar agor |
| Edrych i mewn i drefnu sesiwn â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol i drafod canlyniadau ac awgrymiadau Holiadur Hunanasesu'r Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd. | Yr Ysgrifenyddiaeth/ KAS | Nid oes angen sesiwn. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei rannu'n electronig. |